# #TRAWSNEWIDRhCT








Sganiwch yma i fynd i dudalen we #TrawsnewidRhCT!

Dros y degawd diwethaf, rydyn ni wedi buddsoddi £1.16 biliwn ledled Rhondda Cynon Taf, gan drawsnewid ein cymunedau. Ar yr un pryd, rydyn ni wedi cyflwyno'r cynnydd cronnol isaf yn Nhreth y Cyngor o'i gymharu ag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru.

Rydyn ni wedi trawsnewid addysg gyda buddsoddiad gwerth £410 miliwn mewn 23 o brosiectau mawr ar gyfer ysgolion a gwaith uwchraddio parhaus. Mae ein ffyrdd, pontydd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi elwa o fuddsoddiad gwerth £237 miliwn, gan wella llwybrau allweddol a chefnogi'r gwaith adfer hirdymor yn dilyn Storm Dennis.

Mae buddsoddiad gwerth dros £230 miliwn wedi arwain at welliannau ym meysydd adfywio a thrafnidiaeth, gan gynnwys y Fford Gyswllt ar draws y Cwm, cynllun deuoli'r A4119, a Llys Cadwyn, yn rhan o'r rhaglen adfywio ehangach ar gyfer ardal Pontypridd.

Rydyn ni wedi buddsoddi £87 miliwn mewn tai, gan helpu pobl i fyw'n annibynnol a throi eiddo gwag yn gartrefi, tra bod gwelliannau gwerth £57 miliwn wedi'u cwblhau yn ein parciau, canolfannau hamdden a mannau chwarae, gan gynnwys 17 o gaeau 3G newydd.

Rydyn ni hefyd wedi buddsoddi £25 miliwn mewn gofal cymdeithasol yn rhan o raglen ehangach gwerth £90 miliwn, gan ddarparu cyfleusterau newydd i drigolion hŷn.

**YN YSTOD Y DEGAWD DIWETHAF, RYDYN NI WEDI GWELLA CARTREFI A CHYMUNEDAU**

- Cafodd dros 2,000 o eiddo gwag eu troi'n gartrefi
- Buddsoddiad mawr ym meysydd addasiadau a byw'n annibynnol

**CYNGOR RHCT OEDD Y CYNGOR CYNTAF YNG NGHYMRU I DDARPARU PECYN CYMORTH COSTAU BYW**

- Darparwyd cyllid grant gwerth £2.1 miliwn trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i'n grwpiau cymunedol gwych

**YN YSTOD Y DEGAWD DIWETHAF, RYDYN NI WEDI GWELLA EIN TREFI A'R STRYD FAWR**

- Cefnogi busnesau lleol drwy gynnig amrywiaeth o gynlluniau grant a rhyddhad ardrethi
- Cryfhau canol ein trefi gyda chynlluniau adfywio
- Cynnal achlysuron mawr yn yr ardal, gan gynnwys yr Eisteddfod

**YN OGYSTAL Â DARPARU DROS 500 O GYFLEOEDD I BRENTISIAID A GRADDEDIGION**

**RYDYN NI WEDI TRAWSNEWID CYFLEUSTERAU HAMDDEN A CHWARAEON**

- 17 cae 3G newydd
- 14 o ganolfannau hamdden wedi'u huwchraddio
- Cyfleusterau athletau ym mhob ardal yn RhCT

**Y BUDDSODDIAD UCHAF ERIOED MEWN MANNAU CHWARAE I BLANT**

- Mae dros 160 o fannau chwarae wedi'u gwella, eu huwchraddio neu eu hadnewyddu'n llwyr!

**A RHAGLEN I DDARPARU 10 ARDAL GEMAU AML-DDEFNYDD NEWYDD**

**YN YSTOD Y DEGAWD DIWETHAF RYDYN NI WEDI GWELLA**

- Dros 3,000 o ffyrdd cerbydau
- Bron i 600 o lwybrau troed
- Dros 130 o strwythurau

**SY'N GOLYGU BOD**

- Angen cynnal gwaith cynnal a chadw ar lai na 6% o ffyrdd

**CYFLAWNI CYNLLUNIAU MAWR**

- Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm, yr A4119, rhaglen adfywio Pontypridd

**DIOGELU CYMUNEDAU**

- Dros £100 miliwn ar gynlluniau lliniaru llifogydd